OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 No. 3033

## Gorchymyn Etholiadau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2014

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Etholiadau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2014 a daw i rym ar 9 Rhagfyr 2014.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i bob awdurdod lleol(**1**) yng Nghymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "Deddf 1972" ("*the 1972 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 1972(**2**).

(**1**) Mae adran 84(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn diffinio "local authority" fel cyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol neu gyngor cymuned. Mae'r diffiniad hwn yn gymwys at ddibenion adran 87 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, y gwneir y Gorchymyn hwn odano.

(**2**) 1972 p. 70.